# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 1 Gorffennaf 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffordd ar gylchfan Abercynon ar yr A470? (WAQ51896)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Gweithredwyd cynllun gwella cylchfan A470 Abercynon mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac fe'i hariannwyd ar y cyd â'r awdurdod hwnnw ar gost adeiladu o tua £300,000. Prif nod y cynllun oedd caniatáu i draffig ymuno â'r gylchfan o gyfeiriad A4059 Aberdâr/Aberpennar, a oedd yn peri problem arbennig. Roedd y cynllun yn cynnwys signalau traffig ar bedair cangen y gylchfan ac ar y ffordd gylchol, addasiadau i'r arwyddion presennol, marciau ar y ffordd, goleuadau stryd a darparu ffensys diogelwch. Mae'r cynllun wedi gwella diogelwch ac wedi'i gwneud yn haws i yrwyr sy'n defnyddio canghennau'r A4059 a'r A472 ymuno â'r gylchfan. Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymchwilio i welliannau pellach er mwyn lleihau'r oedi wrth ymuno â'r A470 yn y lleoliad hwn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r gost gyfartalog i economi Cymru yn sgil oedi o ran traffig oherwydd gwaith ffordd ar yr A470 ym mhob un o'r blynyddoedd ers datganoli? (WAQ51897)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw'r wybodaeth hon gennym.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw asesiad wedi cael ei wneud o'r gost i economi Cymru yn sgil oedi o ran traffig ar y system cefnffyrdd yng Nghymru ac os felly, a wnaiff y Gweinidog roi manylion? (WAQ51898)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni wnaed unrhyw asesiad cyffredinol o gost yr oedi ar y system gefnffyrdd i'r economi yng Nghymru.

Tueddir cynnal asesiadau o Effeithlonrwydd Economaidd Trafnidiaeth wrth werthuso a chymharu'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag ymyriadau a chynlluniau trafnidiaeth unigol parhaol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyswllt sydd mewn perthynas â lladd gwair ar gylchfannau yn ystod oriau brig traffig mewn perthynas â chefnffyrdd? (WAQ51899)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn achos ffyrdd â llif traffig uchel, ceir amserau a gofnodwyd pan ellir ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw rheolaidd, gan osgoi oriau brig yn y bore a chyda'r nos. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn gwahardd cynnal gwaith ffordd arfaethedig yn ystod cyfnodau'r Pasg, yr haf a'r Nadolig sy'n golygu y dylid osgoi gwneud gwaith rheoli traffig a allai beri oedi i ddefnyddwyr cefnffyrdd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisi ar Ymyriad Maethol? (WAQ51921)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae Cynllun Gweithredu Bwyd o Ansawdd i Bawb yng Nghymru yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Lansiwyd y cynllun gweithredu pum mlynedd ar gyfer plant a phobl ifanc, Bwyd a Ffitrwydd—Hybu Bwyta'n Iach a Gweithgarwch Corfforol, ym mis Mehefin 2006. Yn ddiweddar, ymrwymais £14 miliwn ychwanegol o gyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu'r cynllun hwn dros y 3 blynedd nesaf.

Mae nifer o ymyriadau penodol mewn perthynas â maeth yn cael eu cyflawni ar draws Cymru, gan gynnwys:
- cael gwared â pheiriannau sy'n gwerthu bwyd a diodydd gwael o ysbytai;
- y Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd, sy'n cyflenwi ffrwythau a llysiau da a fforddiadwy i gymunedau difreintiedig;
- cynllun grant sy'n darparu deietegwyr ychwanegol i roi hyfforddiant ar sgiliau bwyd a maeth i bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- y Bws Coginio, sy'n cynnal sesiynau coginio ymarferol ar gyfer disgyblion a sesiynau hyfforddi ar gyfer athrawon.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ynghylch eu cynnig i symud gwelyau acíwt i'r gymuned? (WAQ51925)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol â'r Ymddiriedolaeth, ond mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Ymddiriedolaeth a'r gymuned iechyd wrth iddynt ddatblygu eu Rhaglen ar gyfer Gwella'r Gwasanaeth Iechyd (PHSI).

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaeth y Gweinidog hysbysu'r Prif Weinidog am wrthdaro posibl mewn buddiannau, fel a nodir yng Nghod y Gweinidogion, cyn dechrau ar yr adolygiad annibynnol o wasanaethau niwrolawdriniaeth; os na, pam ddewisodd hi beidio â gwneud hynny? (WAQ51926)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gyngor a geisiodd y Gweinidog am y darpariaethau yng Nghod y Gweinidogion cyn penderfynu rhoi terfyn ar ddiwygio gwasanaethau niwrolawdriniaeth? (WAQ51927)

**Edwina Hart:** Mae Gweinidogion bob amser yn glynu'n dynn wrth yr egwyddorion a amlinellir yng Nghod y Gweinidogion. Nid yw Ysbyty Treforys yn fy etholaeth i ac felly ni cheir unrhyw wrthdaro buddiannau.

Fel Gweinidog Iechyd, rwyf yn gyfrifol am y gwasanaeth iechyd ar draws Cymru ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd er lles Cymru gyfan. Rwyf bob amser wedi gofalu fy mod yn cyfeirio pob mater iechyd sy'n effeithio ar fy etholaeth at Brif Weinidog Cymru fel y gall wneud penderfyniad yn ei gylch.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd unrhyw arian ar ôl heb ei wario o daliad chwyddo ar gyfer pori Tir Mynydd ai peidio; ac os felly a all gadarnhau faint o arian sy'n debygol o fod dros beth a beth mae'n bwriadu ei wneud ag ef? (WAQ51919)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Bydd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwella tir pori'r cynllun Tir Mynydd yn cael ei defnyddio'n llawn at y diben hwnnw.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cnydau a addaswyd yn enetig a dyfwyd yng Nghymru? (WAQ51923)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn mabwysiadu'r dull gweithredu mwyaf cyfyngol mewn perthynas â thyfu cnydau GM yng Nghymru sy'n gyson â fframweithiau deddfwriaethol y DU a'r UE. Mae hwn yn bolisi hirsefydlog â chefnogaeth drawsbleidiol, a gaiff ei ailgadarnhau drwy ymrwymiad 'Cymru'n Un' i gynyddu cyfyngiadau ar gnydau GM yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effeithiolrwydd cynllun 'ffarwel euraid' Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn etholiadau awdurdodau lleol 2004? (WAQ51906)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Cyflwynwyd Adroddiad Gwerthuso ar y Cynllun Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fel y'i gelwid bryd hynny, gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol ar y pryd, ar 10 Tachwedd 2004. Anfonwyd copi o'r Adroddiad hwn atoch bryd hynny.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno cynllun tebyg i'r dyfarniad gwasanaeth hir 'ffarwel euraid' yn 2004 cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ51907)

**Brian Gibbons:** Y bwriad bob amser oedd i'r Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd fod yn fenter unigol a oedd yn cydnabod gwasanaeth hir a dibensiwn gan gynghorwyr sir a chynghorwyr bwrdeistrefi sirol a oedd yn barod i ymddeol adeg etholiadau llywodraeth leol 2004. Nid oes unrhyw gynlluniau i ailadrodd yr ymarfer.